

Gwybodaeth i Gleifion

**Echdoriad Trawswrethrol o
Diwmor ar y Bledren (ETWDB)**

Yr Adran Wroleg

Beth yw ETWDB?

Tynnu rhan annormal o fewn y bledren a all gael ei brofi'n ganser neu beidio.

Beth yw buddion y llawdriniaeth hon?

Tynnu annormaledd a gaiff ei anfon i'w ddadansoddi, i gadarnhau a oes canser yn bresennol ai peidio.

Beth yw'r risgiau?

Cyffredin

- Gwaedu neu mân losgi wrth basio wrin am gyfnod byr ar ôl eich llawdriniaeth
- Rhoi cathetr wrinol i mewn dros dro i adael hylif i lifo i mewn/allan o'r bledren
- Yr angen am driniaethau ychwanegol mewn ymgais i atal canser rhag dychwelyd

Achllysurol

- Haint wrinol sy'n galw am driniaeth gwrthfotig
- Dim gwarant y gwaredir y canser drwy'r llawdriniaeth hon yn unig
- Y tiwmor ar y bledren ddim yn cael ei dynnu'n llwyr ar ôl y llawdriniaeth, sy'n galw am lawdriniaeth arall

Prin

- Gwaedu sy'n galw am dynnu ceuladau, neu lawdriniaeth bellach
- Niwed i bibellau draenio o'r aren (wreterau) sy'n galw am driniaeth bellach
- Anaf i'r biben ddŵr (wrethra) yn achosi creithio yn nes ymlaen
- Rhydylliad yn y bledren sy'n galw am gathetr wrinol dros dro, neu lawdriniaeth

A oes unrhyw driniaethau amgen?

Nac oes, ETWDB yw'r llawdriniaeth sydd angen i ni ei chynnal er mwyn cadarnhau diagnosis.

Beth sy'n digwydd cyn y llawdriniaeth?

Cyn eich llawdriniaeth bydd gofyn i chi fynd i'r Clinig Cyn Derbyn i'r Ysbyty. Mae hyn i wirio eich bod yn iach ar gyfer eich llawdriniaeth, ac i arwyddo eich ffurflen gydsynio. Byddwch yn cael eich holi am eich iechyd cyffredinol a chewch rai neu'r cyfan o'r profion canlynol: profion gwaed ac wrin ac ECG (olrhain y galon). Mae'r rhain yn brofion arferol cyn llawdriniaeth. Bydd cyfle gennych hefyd i ofyn unrhyw gwestiynau. Mae hwn yn apwyntiad fel claf allanol, fydd yn para tua 1-2 awr. Mae'n bosib y bydd angen apwyntiad arall i weld anesthetydd cyn eich llawdriniaeth, os yw'r asesiad rhag blaen yn awgrymu bod hyn yn angenrheidiol. Gallwch ddod â pherthynas neu ffrind gyda chi os ydych chi'n dymuno.

Eich llawdriniaeth

Byddwch yn cael eich derbyn i'r ward y diwrnod cynt, neu ar fore eich llawdriniaeth. Cewch wybod am hyn yn y clinig cyn derbyn i'r ysbyty. Bydd anesthetydd yn eich gweld ar yr adeg hon i drafod eich anesthetig a rheoli poen. Bydd meddyg yn trafod y llawdriniaeth a chymhlethdodau posib unwaith eto, yn ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych ac yn gofyn i chi arwyddo'r ffurflen gydsynio drachefn.

Gofynnir ichi beidio â bwyta nac yfed unrhyw hylifau nad ydynt yn glir e.e. cawl, llaeth ac ati, am 6 awr cyn eich llawdriniaeth. Ni ddylech gnoi gwm ar ôl hanner nos y noson cyn eich llawdriniaeth. Gallwch gael dŵr tap hyd at ddwy awr cyn eich llawdriniaeth, wedi hyn gofynnir ichi beidio ag yfed rhagor. Mae'n bwysig cymryd eich holl feddyginiaeth rheolaidd ar fore eich llawdriniaeth oni bai eich bod yn cael eich cynghori i beidio.

Os ydych yn ddiabetig yn ddibynnol ar inswlin, bydd angen cyfarwyddyd arbennig arnoch – trafodwch hyn gyda'ch nyrs.

Cyn i chi fynd i'r theatr gofynnir ichi gael cawod a gwisgo gŵn ysbyty ac o bosib hosanau arbennig – bydd y hosanau hyn yn helpu i leihau'r risg o gael ceuladau yn eich coesau. Os ydych yn bryderus a'i fod yn briodol, mae'n bosib y byddwch wedi cael meddyginiaeth i'ch ymlacio (*pre-med*), bydd hon yn cael ei rhoi i chi ar y ward cyn i chi fynd i'r theatr. Bydd nyrs yn eich hebrwng i'r theatr lle byddwch yn cael eich cludo i'r ystafell anesthetig lle byddwch yn cael eich anesthetig.

Beth mae'r llawdriniaeth yn ei olygu?

Bydd ysbienddrych arbennig (*resectosgop*) yn cael ei basio drwy'r wrethra (piben ddŵr) i'r bledren. Mae'r llawfeddyg yn gallu gwneud y llawdriniaeth drwy'r ysbienddrych hwn, ac mae'r rhan annormal yn cael ei thorri i ffwrdd – **gweler y**





diagram (isod). Caiff y feinwe ei hanfon i'r labordy lle edrychir arni drwy ficrosgop. Mae'r llawdriniaeth yn para tua 30-60 munud.

(Atgynhychir y diagramau gyda chaniatâd caredig Health Press Ltd, Rhydychen)

Beth fydd yn digwydd wedi'r llawdriniaeth?

Bydd y nyrsys yn gwirio'n gyson eich pwysedd gwaed, curiad calon, anadlu, poen a faint o ddŵr rydych yn ei basio. Wrth i chi ddadebru o'r anesthetig bydd y gwirio'n digwydd yn llai aml.

Rhestrir isod y tiwbiau a'r draeniau fydd gennych o bosib. Peidiwch â phoeni amdanyn nhw, maen nhw yno i roi hylif i chi neu i dynnu hylif i ffwrdd. Fe'u tynnir fel arfer yr un diwrnod neu'r bore wedyn.

- **Arllwysiad mewnwythiennol (IVI neu ddiferiad)** – Caiff caniwla (tiwb plastig tenau) ei roi mewn gwythien yn eich braich a rhoir hylif drwy hwn i wneud yn siŵr na fyddwch yn mynd yn ddadhydredig. Gellir ei ddefnyddio hefyd i roi gwrthfotigau, gwaed ac ati yn fewnwythiennol. Pan fyddwch yn yfed a ddim yn teimlo'n sâl, caiff yr IVI ei dynnu ymaith.
- **Cathetr wrinol** – O dro i dro bydd angen cathetr ar rai cleifion (pibell yn cael ei roi yn eich pledren drwy eich wrethra). Bydd wrin yn llifo drwy'r cathetr i fag. Efallai bydd gwaed yn eich wrin – mae hyn yn arferol a dylai'r gwaed ddiflannu dros y 4-7 diwrnod nesaf. Fel arfer tynnir y cathetr oddi yno ar ddiwrnod y llawdriniaeth, neu'r diwrnod wedi hynny.
- **Dyfrhad** – Efallai bydd hylif yn cael ei roi i mewn i'ch pledren drwy'r cathetr i olchi gwaed allan ac atal ceuladau. Bydd hyn yn gorffen pan fydd y gwaedu'n clirio.

A fydd angen unrhyw driniaeth arall arnaf?

Argymhellir y rhoir un dos o gemotherapi (mitomycin) i'r rhan fwyaf o gleifion o fewn 6 awr o'r llawdriniaeth. Rhoir hyn yn syth wedi'ch llawdriniaeth drwy eich cathetr, a chaiff ei ddraenio allan ar ôl un awr. Caiff ei roi i ladd unrhyw gelloedd canser allai fod ar ôl.

Bydd wedyn yn cael ei ddraenio allan i fag cathetr. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn goddef hyn yn dda, ond dylech ddweud wrth staff os ydych yn teimlo poen neu anesmwythder.

Am faint bydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?

Byddwch naill ai'n mynd adref ar yr un diwrnod (achos diwrnod) neu'r diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth.

A fydd angen cael apwyntiad olynol?

Bydd rhagor o driniaeth neu ymchwiliad yn dibynnu ar beth mae'r samplau gafodd eu hanfon i'r labordy yn dangos. Caiff apwyntiad ei wneud i chi ddod yn ôl i'r clinig i drafod eich canlyniadau gyda'ch meddyg.

Gwybodaeth am adael yr ysbyty

- Mae'n debygol o losgi neu bigo pan fyddwch yn pasio dŵr yn syth ar ôl eich llawdriniaeth. Dylai hyn wella dros 2-3 diwrnod.
- Os ydych yn datblygu tymheredd, neu os yw'ch wrin yn ogleuo neu'n gymylog pan fyddwch yn pasio dŵr, efallai bod haint arnoch. Dylech gysylltu â'ch meddyg gan y bydd angen cwrs o wrthfotigau o bosib.
- Efallai y gwelwch chi waed yn eich wrin – mae hyn yn arferol a dylai glirio ar ôl 4-7 diwrnod. Os nad yw'r gwaedu'n gwella neu bod llawer o waed yn eich wrin, eich bod yn sylwi ar geuladau a'ch bod yn cael trafferth pasio dŵr, dylech ffonio eich meddyg teulu am gyngor.
- Gallwch fwyta ac yfed fel arfer. Oni bai eich bod wedi cael cyngor i gyfyngu ar faint o hylif rydych yn ei yfed, dylech geisio yfed 1.5 i 2 litr o hylif bob dydd ar ôl eich llawdriniaeth i helpu i leihau'r risg o haint, a golchi ymaith unrhyw waed.
- Efallai y byddwch yn sylwi ar waed yn eich wrin eto 10-14 diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth. Mae hyn i'w ddisgwyl ac mae'n digwydd pan mae crachod yn dod i ffwrdd o'r ardaloedd o fewn y bledren lle cafodd yr annormaledd ei dynnu. Dylech yfed i olchi'r gwaed allan. Os yw'r gwaedu'n drwm, gyda cheuladau sy'n gwneud pasio dŵr yn anodd, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu.
- Dylech aros am o leiaf 24 awr cyn gyrru neu ddychwelyd i'r gwaith ar ôl eich llawdriniaeth, cyhyd â'ch bod yn teimlo'n ddigon da i wneud hynny. Gwiriwch gyda'ch cwmni yswiriant pryd y maen nhw'n hapus ichi ddechrau gyrru eto ar ôl y llawdriniaeth.
- Gallwch aildechrau cael rhyw cyn gynted ag yr ydych yn teimlo'n gyffyrddus i wneud hynny.

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon, mae rhifau cyswllt y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg isod:-

Wardiau Wroleg:-

D2 Gorllewin:- 01633 – 234103n(24 awr)

Ward Ddydd Wroleg:- Rhif Ffôn:- 01633 – 656378 / 656377
Llun – Gwener, oriau swyddfa

Adran Cleifion Allanol Wroleg:- Rhif Ffôn:- 01633 – 234979
Llun – Gwener, oriau swyddfa

Janet Marty, Nyrs Arbenigol Wro-oncoloeg:-
Rhif Ffôn:- 01633 – 656143
Llun – Gwener, oriau swyddfa

Laura Reynolds, Ymarferwyr Nyrsio Wroleg:-
Rhif Ffôn:- 01633 – 234758
Llun – Iau – oriau swyddfa a phob yn ail ddydd Gwener

Sarah Osman, Ymarferwyr Nyrsio Wroleg:-
Rhif Ffôn:- 01633 – 234043
Llun – Iau – oriau swyddfa a phob yn ail ddydd Gwener

Julie Simpson, Nyrs Arbenigol Wro-oncoleg:-
Rhif Ffôn:- 01633 – 238976 / 01873 – 732081(Nevill Hall)

Cyfeiriadau:

British Association of Urological Surgeons (2004) Procedure Specific Consent Forms for Urological Surgery

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**